# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 9 Rhagfyr 2019

Amser: 14.30 - 14.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5621

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AC<br>Carwyn Jones AC<br>Dai Lloyd AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Rachael Davies (Dirprwy Glerc)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad yn eu cylch o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(5)472 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad yn eu cylch i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(5)474 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad, yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i dynnu sylw at faterion o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

### 3.2 SL(5)475 – Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad, yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i dynnu sylw at faterion o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

### 3.3 SL(5)476 – Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i drafod ymateb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol, a hynny cyn gosod ei adroddiad cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 8 Ionawr 2020.

### 3.4 SL(5)477 – Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.5 SL(5)473 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Llywodraeth i ofyn am eglurhad pellach mewn ymateb i'r pwynt adrodd.